BAVO

Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

# Adroddiad Effaith Blynyddol 2022-23

25 Mlynedd












# Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol sy'n rhoi cipolwg ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn 2022-2023. Fel erioed, mae'n anodd arddangos popeth yma gan fod cymaint wedi ei wasgu i'r flwyddyn!

Yn ystod 2022/23 rydym yn dathlu ein pen-blwydd yn 25 oed, ac er ein bod wedi bod o gwmpas ers cryn amser bellach, mae angen Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), fel gweddill y trydydd sector, **nawr yn fwy nag erioed!** Mae amserlen o gyflawniadau ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn, ond yn gyntaf dyma ychydig o'n hanes yn 'dod i oedran.'

Cyn 1997, roeddem yn rhan o Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Morgannwg Ganol (MGAVO). Fodd bynnag, gyda Deddf Llywodraeth Cymru ac ad-drefnu llywodraeth leol, daeth BAVO i fodolaeth. Rydym yn elusen annibynnol ynghyd â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol eraill ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Bryd hynny, cytunodd Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu cyllid ar y cyd i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i gefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol lleol. Cafodd pwysigrwydd y trydydd sector ei ysgrifennu'n ddiweddarach yn Neddf Llywodraeth Cymru ar ffurf 'Cynllun trydydd sector'.

Yn 1997, roedd gan BAVO dîm o 3 aelod o staff rhan-amser. Sharon Headon, ein Swyddog Gwirfoddoli oedd un o'r tîm gwreiddiol a ymunodd â ni o MGAVO. Mae hi'n dal gyda ni heddiw a hoffem gydnabod y cyfraniad rhagorol y mae Sharon wedi'i wneud dros 25 mlynedd.

Dros y blynyddoedd fe wnaeth cyllid Ewropeaidd a chyllid arall ein helpu i dyfu. Yn 2004 roedd gennym dîm o 25 a mannau allgymorth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Porthcawl, Corneli a Phontycymer. O ganlyniad, roedd llawer mwy o gefnogaeth a chymorth i feithrin capasiti ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Mae'r gefnogaeth hon wedi helpu ein sector lleol i dyfu a ffynnu.

Yn 2007-08 newidiodd hynny pan ddaeth arian 'Amcan 1' yr UE i ben. Lleihaodd y tîm i 11 aelod o staff ynghyd a'r angen i atgyfnerthu, ailadeiladu a newid yr hyn y gallem ei gynnig i grwpiau. Er nad yw'r angen am ein gwasanaethau craidd wedi newid mewn gwirionedd dros y blynyddoedd, bu'n rhaid i ni weithio'n ddoethach gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Bob blwyddyn mae'r pwysau ar BAVO ac ar ein sector yn parhau. Mae effeithiau hirbarhaol y pandemig, y rhyfel yn yr Wcráin, ac ôl-effeithiau Brexit yn parhau. At y rhain ychwanegwch yr hinsawdd economaidd; yr argyfwng costau byw a chyllidebau llywodraeth ganolog a lleol dan bwysau, mae'n amlwg y bydd y ddibyniaeth ar ein sector i fodloni'r galw cynyddol yn parhau.

Ac eto, os yw'r pandemig wedi dysgu unrhyw beth i ni, hwnnw yw ein bod ni'n gydnerth ac yn ddyfeisgar. Mae ein cryfder yn ein gallu i rwydweithio ac uno wrth ymdrin â phroblemau. Bydd cydweithredu yn ein helpu i lywio drwy'r heriau hyn gyda'n gilydd ac yn ein helpu i ddod o hyd i atebion arloesol i'r brwydrau a wynebir.

Byddwn yn dod drwy'r cyfnodau anodd hyn gyda'n gilydd. Sut ydyn ni'n gwybod hyn? Oherwydd ei fod wedi cael ei wneud o'r blaen, lawer gwaith. Mae grwpiau lleol wedi ymdopi, esblygu, addasu at ddibenion gwahanol, tyfu, crebachu, uno - dylem fod yn falch o ba mor hyblyg, dyfeisgar a chreadigol yr ydym ni i gyd. Y nodweddion hyn sy'n ein galluogi i barhau i ymateb i anghenion pobl a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Rydym wedi arddangos rhai o'n canlyniadau a'n straeon ar y cyd yn yr adroddiad hwn.

Felly, 25 mlynedd yn ddiweddarach, mae llawer wedi newid, ac eto mae cymaint yn parhau i fod yn gyfarwydd ac yn gylchol. Mae BAVO yn parhau i weithio ar draws partneriaethau amrywiol i sicrhau bod llais y sector yn uchel, yn glir ac yn cael ei glywed. Mae'r sector yn haeddu cydnabyddiaeth ac mae'n rhaid ei werthfawrogi.

Hoffem ddiolch i holl dîm ac Ymddiriedolwyr BAVO, ddoe a heddiw, am yr holl waith caled a chyfraniadau a wnaed at daith 25 mlynedd BAVO. Rydym yn estyn ein diolch enfawr i'r grwpiau, elusennau a'r gwirfoddolwyr sy'n chwarae rhan ganolog wrth wneud ein cornel o'r byd yn lle gwell. Rydym hefyd yn diolch i'n holl gyllidwyr, ymlaen i'r 25 mlynedd nesaf!



**Steve Curry**
Cadeirydd

25 Mlynedd



**Heidi Bennett** MBA, MCIPD
Prif Swyddog Gweithredol

# Sut mae BAVO yn helpu?

## Y canlyniadau rydyn ni'n bwriadu eu cyflawni:

**Sefydliadau trydydd sector cryfach**
Trwy ddarparu cymorth, cyngor a hyfforddiant a chyfleoedd dysgu, datblygu sgiliau a meithrin capasiti.

**Cymunedau gweithredol ac amrywiol**
Trwy gefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithgar, cyfle cyfartal ac amrywiaeth.

**Trydydd sector cynaliadwy**
Trwy ddenu buddsoddiad, broceru partneriaethau, cydlynu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, hyrwyddo cyfleoedd ariannu a gweinyddu grantiau.

**Trydydd sector bywiog a dylanwadol**
Trwy sicrhau bod y sector yn dylanwadu ar strategaeth, polisi a ffyrdd o weithio. Gwneud y sector yn rhan annatod o gyd-gynhyrchu ac atebion i faterion lleol.

**Llais i ddinasyddion a chymunedau**
Trwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, pobl â phrofiad bywyd, cymunedau a dinasyddion, i alluogi eu llais i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau lleol sy'n effeithio arnyn nhw a'u bywydau.

## Ein Cenhadaeth

Mae BAVO yn bodoli i gefnogi, annog a hyrwyddo datblygiad y sector gwirfoddol a chymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym yn ymdrechu i fod â sector sy'n effeithiol ac yn effeithlon; yn wybodus ac yn ddylanwadol; ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

## Ein Gwerthoedd

Mae gwaith BAVO yn cael ei arwain gan set o werthoedd sy'n helpu i bennu blaenoriaethau a'r arddull gyffredinol o weithio. Rydym yn cydnabod bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amrywiol ac mae gan bawb yr hawl i gyfle cyfartal ac i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned.

## Yr hyn yr ydym yn ei gyflawni

Mewn cydweithrediad â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a chynghorau gwirfoddol sirol eraill yng Nghymru, rydym yn cyflawni pedair thema allweddol, sef:

1. **Llywodraethu Da** – Cefnogaeth i grwpiau a sefydliadau ar gyfer trydydd sector ffyniannus
2. **Gwirfoddoli** – Galluogi mwy o bobl a chymunedau i elwa ar wirfoddoli.
3. **Cyllid Cynaliadwy** – Darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth i gynyddu gallu sefydliadau i sicrhau a thyfu incwm
4. **Ymgysylltu a Dylanwadu** – Rydym yn gwrando ar lais y sector a chymunedau; gan gynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol. Rydym yn cysylltu â gwasanaethau cyhoeddus i ddylanwadu ar strategaeth a pholisi.

Rydym hefyd yn rheoli nifer o brosiectau a gwasanaethau sy'n ceisio cefnogi unigolion a grwpiau cymunedol gan gynnwys ein Cynllun Cymdeithion Cymunedol, Focus Forward a gwasanaeth Llywio Cymunedol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTM), Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cynrychioli ein sector ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CTM.

Mae gan BAVO dros 400 o aelodau o blith sefydliadau'r trydydd sector. Mae ein haelodaeth AM DDIM i grwpiau cymunedol lleol, gwirfoddol a dielw a mentrau cymdeithasol.

## Cipolwg ar y flwyddyn

| Llywodraethu Da | Gwirfoddoli | Cyllid Cynaliadwy | Ymgysylltu a Dylanwadu |
|---|---|---|---|
| **1,191** o geisiadau am gymorth | **326** o ymholiadau gwirfoddoli newydd | **155** o sefydliadau wedi cael cymorth i gael gafael ar gyllid | **434** o bobl yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau a fforymau |
| **262** o grwpiau wedi'u cefnogi drwy gyngor ar lywodraethu | **176** o wirfoddolwyr wedi'u cefnogi | **£287,618** wedi'i sicrhau gyda chymorth BAVO | **15** o rwydweithiau a fforymau wedi'u cydgysylltu |
| **423** o sefydliadau yn aelodau | **67** o wirfoddolwyr wedi'u paru â chyfleoedd | **£202,535** mewn grantiau a ddosbarthwyd | **95** o gyfarfodydd gwahanol gyda phresenoldeb BAVO |

# Llywodraethu Da

Canlyniad
*Sefydliadau trydydd sector cryfach*

## Beth wnaethon ni?

Mae BAVO yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol gan eu cefnogi i gyflawni eu cenhadaeth. Mae'r tîm yn darparu gwybodaeth ac arweiniad sy'n helpu Ymddiriedolwyr a grwpiau i fod yn fedrus, yn hyderus ac yn gadarn wrth redeg eu sefydliadau.

Fe wnaethom y canlynol:

- Darparu gwybodaeth, arweiniad proffesiynol a chefnogaeth
- Helpu grwpiau gyda'u strwythurau llywodraethu, ymddiriedolwyr, polisïau a gweithdrefnau
- Cyfeirio grwpiau at gymorth arbenigol a chyfleoedd cyllido pan fo hynny'n briodol
- Ychwanegu adnoddau at yr 'Hwb Gwybodaeth' a rennir lle gall grwpiau gael gafael ar wybodaeth ar-lein 24/7 – **knowledgehub.cymru/cy**

## Beth wnaethom ni ei gyflawni?

**423**
o aelodau BAVO – cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol

**1,191**
o ymholiadau gan grwpiau ac ymddiriedolwyr

**143**
o bobl wedi cael hyfforddiant gan BAVO

**7**
o grwpiau cymunedol newydd wedi cael eu cefnogi i ddechrau arni

**14**
o grwpiau wedi'u cefnogi i roi gweithgareddau / gwasanaethau newydd ar waith

**292**
o grwpiau wedi'u cefnogi i gryfhau eu llywodraethiant



## Pa wahaniaeth a wnaethpwyd?

## Grŵp Allgymorth Corneli (COG)

Fe wnaeth cefnogaeth BAVO alluogi Grŵp Allgymorth Corneli (COG) i sefydlu man diogel i gefnogi pobl â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Mae creu'r grŵp newydd wedi rhoi cefnogaeth leol i bobl a lle diogel i sgwrsio. Gellir cyfeirio pobl hefyd at wasanaethau arbenigol os oes angen, i'w helpu gyda'u hadferiad.





**Mae'r sylfaenydd Anthony yn esbonio pam mae'r grŵp yn gweithio cystal:**

"Iechyd meddwl, alcohol a dibyniaeth - mae'r tri fel effaith peiriant golchi, yn mynd rownd a rownd o'r naill beth i'r llall heb, mae'n ymddangos, unrhyw ddihangfa, a dim atebion tymor byr. Gyda rhestrau aros mor hir yn y system atgyfeirio iechyd meddwl, a dim ymatebion cyflym tra byddwch chi'n aros, dyma lle gall COG helpu pobl mewn gwirionedd."

## Porthcawl JOY-riders

Aeth JOY-riders Porthcawl at BAVO am gymorth i sefydlu elusen newydd. Roeddent eisiau dod â rhywfaint o lawenydd i'r rhai nad oeddent bellach yn gallu cerdded ar hyd Promenâd Porthcawl.

Cychwynnodd y beiciwr brwd Steve y grŵp gydag ysbrydoliaeth o'r fenter Cycling Without Age.

Dywedodd: "Mae beicio yn rhoi bywiogrwydd a llawenydd i mi ac mae pawb yn elwa yn sgil bod yn egnïol yn yr awyr agored, yn enwedig ar lan y môr. Roeddwn i eisiau rhoi cyfle i bobl brofi'r un peth".

O ganlyniad fe anwyd JOY-riders ac maent bellach yn cynnig teithiau am ddim mewn Trishaw ar hyd glan y môr. Cefnogodd BAVO Steve i sefydlu Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE), i roi polisïau ar waith, i ddod o hyd i wirfoddolwyr yn ogystal â chynnig arweiniad gweithredol cyffredinol.



"Gyda dau Trishaw yn cyflawni pum taith y dydd, dyna hyd at 100 o deithwyr hapus yn nannedd y gwynt bob wythnos. Helpodd mewnbwn proffesiynol BAVO i wneud tasg heriol yn un haws o lawer"

**Steve, JOY-riders**

Mae'r elusen fach yn cael ei phweru gan wirfoddolwyr, gyda'r genhadaeth i sirioli bywydau cymaint o bobl â phosibl. Mae'r gwirfoddolwyr a'r teithwyr i gyd yn mwynhau'r manteision corfforol ac emosiynol, gan werthfawrogi'r awyr agored a gwneud ffrindiau newydd.



## Canolfan Gymunedol The Bridge

Roedd The Bridge am sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o gyfreithlondeb cynnal elusen.

Dros gyfnod o fis, darparodd BAVO gefnogaeth drwy gynnal 'archwiliad iechyd' a oedd yn nodi ffyrdd y gallai'r sefydliad wella ei ddull o lywodraethu, cyflawni arfer gorau a chryfhau ei wasanaethau.

"Roeddwn yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth a ddarparwyd gan BAVO. Fe wnaeth fy helpu i ddeall fy swyddogaeth a phwysigrwydd llywodraethu da o fewn y sefydliad. Roeddwn i'n gallu nodi meysydd yr oedd angen eu diweddaru a sut y gallwn fynd ati i wneud hyn.

Mae BAVO wedi ein helpu i sicrhau bod gennym y sylfeini sydd eu hangen i dyfu a dod yn fwy cynaliadwy yn yr amgylchedd presennol."

## Cantorion Festri Caerau



Roedd grŵp o bobl leol yng Nghaerau eisiau dechrau grŵp canu agored ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr. Roedden nhw'n gwybod pa effaith gadarnhaol y gall canu ei chael ar weithgaredd yr ymennydd, y system anadlol a llesiant cyffredinol, ac roedden nhw eisiau dod â phobl at ei gilydd.



Gyda chefnogaeth BAVO fe gytunon nhw ar enw'r grŵp – Cantorion Festri Caerau. Cawsant gefnogaeth yn y broses o ddatblygu eu cyfansoddiad, sefydlu cyfrif banc a mynediad at hyfforddiant perthnasol. Gyda'r strwythur cywir ar waith, maent bellach yn gallu gwneud cais am gyllid i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Mae'r grŵp yn cyfarfod bob penwythnos i ganu, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn. I ofalwyr a'r rhai sydd â dementia mae'n rhoi rhywbeth iddyn nhw edrych ymlaen ato ar y penwythnosau.

Nid yn unig y mae canu'n cael effaith gadarnhaol ar eu hwyliau, ond mae teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd yn tawelu. Mae'r cantorion a'r cerddorion sydd wedi bod yn bresennol wedi rhoi sylwadau ynghylch y gwahaniaeth y maent yn ei weld yn y cyfranogwyr a manteision y cyfeillgarwch sydd wedi datblygu ers i'r grŵp ddechrau.

# Gwirfoddoli

Canlyniad

*Cymunedau gweithgar ac amrywiol*

## Beth wnaethon ni?

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth gadw grwpiau cymunedol i redeg a darparu cefnogaeth i unigolion.

Cynigiodd BAVO gefnogaeth gyda'r canlynol:

- Arfer da a datblygu polisi i helpu i sicrhau recriwtio a rheoli lleoliadau gwirfoddoli yn ddiogel ac yn briodol
- Hwyluso rhwydwaith a hyfforddiant i annog dysgu ar y cyd a chyfnewid ymarfer ar y cyd i gefnogi gwelliant parhaus
- Rheoli'r cyfleoedd yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr ar wefan Gwirfoddoli Cymru. Mae'r wefan yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ac yn cysylltu pobl sydd eisiau gwirfoddoli – **gwirfoddolicymru.net/cy**
- Darparu mentora a chymorth i'r rhai sy'n ystyried camau cyntaf gwirfoddoli
- Helpu sefydliadau i ystyried arloesedd, swyddogaethau newydd a ffyrdd o ddenu mwy o bobl i wirfoddoli sy'n adlewyrchu amrywiaeth y gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

## Yr hyn a ddywedodd gwirfoddolwyr

**"Trwy wirfoddoli rwyf wedi cael hyfforddiant ac wedi mynd i ddigwyddiadau a chael cyfle i gwrdd â phobl eraill hefyd."**

**"Cefais fy nghefnogi gan fy Therapydd Galwedigaethol ac ymwelais â BAVO i edrych ar opsiynau i wirfoddoli ychydig o oriau'r wythnos.**

**Roedd gwybod bod pobl yn cael trafferth rheoli eu harian, yn gwneud i mi feddwl y byddai gwirfoddoli i gefnogi prosiect a fyddai'n helpu mewn rhyw ffordd i leddfu'r pwysau hwnnw yn dda. Ac mae'r broses wedi gwneud i mi deimlo'n dda."**

## Beth wnaethom ni ei gyflawni?

**326** o ymholiadau gwirfoddoli wedi'u hateb

**176** o wirfoddolwyr wedi'u cefnogi

**67** o wirfoddolwr wedi'u paru â chyfleoedd

**21** o wirfoddolwyr ifanc o dan 25 oed wedi'u cefnogi

**3** o gyfarfodydd rheolwyr gwirfoddol wedi'u hwyluso

**32** o ddiwrnodau gwybodaeth a digwyddiadau i hyrwyddo gwirfoddoli wedi'u cyflawni

**82** o sefydliadau wedi'u cefnogi gyda chanllawiau arfer da gwirfoddoli

## Focus Forward

Mae Focus Forward yn fenter ar y cyd rhwng BAVO a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) i helpu pobl i symud yn nes at gyflawni gwaith cyflogedig.

Darparodd BAVO fentora un i un i unigolion a helpodd i wella eu hyder a'u hunan-barch, eu helpu i gwrdd â phobl newydd ac i ddod yn aelodau gweithgar o'u cymuned, i ymgymryd â heriau newydd, dysgu sgiliau newydd, gwella eu hymdeimlad o lesiant personol ac i wirfoddoli yn y pen draw. Fe wnaeth y gwaith helpu i lunio CV ac yn y pen draw mae'n ceisio helpu unigolion i gael gwaith yn y dyfodol.

- **29** o unigolion yn cael eu cefnogi
- **12** o bobl yn dod yn wirfoddolwyr
- **8** o bobl wedi cael hyfforddiant

**"Mae gwirfoddoli wedi bod yn gyfle i fagu hyder i fynd allan a rhoi cynnig arni."**

**"Gwirfoddoli i mi yw gwneud gwahaniaeth i bobl eraill yn y gymuned, gan adlewyrchu fy agwedd bositif a rhoi rhywbeth iddyn nhw ei wneud a phwrpas sy'n ddefnyddiol i'r ddau barti. Helpu i wella eich llesiant eich hun a gobeithio llesiant eraill hefyd"**

**Gwirfoddolwyr Focus Forward**

## Gwobrau Arwyr Tawel

Roedd Gwobrau Arwyr Tawel, a gynhaliwyd yn ystod Wythnos y Gwirfoddolwyr, yn arddangos y cyfraniad hanfodol y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud a'r effaith y maent yn ei chael ar fywydau pobl. Cafodd cannoedd eu henwebu ac roedd yr amrywiaeth o enwebiadau yn hynod eang gan dystio i amrywiaeth y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd yr enwebeion ar y rhestr fer yn annog llesiant drwy hyfforddi a chyflawni gweithgarwch corfforol, codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac atal hunanladdiad, eiriol dros gydraddoldeb ac amrywiaeth, mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol a chadw gwasanaethau i redeg naill ai drwy roi eu hamser i achos neu drwy godi arian at achos. Ac wrth gwrs, cydnabuwyd swyddogaeth yr Ymddiriedolwyr wrth ddarparu llywodraethiant ac arweinyddiaeth gyfrifol hefyd.

Fel bob amser, roedd yr enwebiadau gwych yn gwneud y gwaith o ddewis yr enillwyr yn anodd i'r panel gwobrau. Fodd bynnag, gwobrwywyd yr holl enwebiadau gyda thystysgrif gydnabyddiaeth.

**Samantha Lambert-Worgan Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a chyfeillion Ysgol Heronsbridge – Enillydd gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn dros 25 oed:**

"Roedd ennill y wobr yn golygu mwy i mi nag y gallaf egluro. Mae wedi bod yn daith anodd cyrraedd lle ydw i heddiw, a gwirfoddoli yw fy mywyd nawr. Rwy'n mwynhau rhoi cymaint yn ôl i fy nghymuned ac mae cael fy nghydnabod am hynny yn fy ngwneud mor emosiynol.

Mae'r wobr yn golygu'r byd i mi, i fy nheulu, ac mae'r bobl rwy'n eu gwasanaethu pan fyddaf yn gwirfoddoli ar eu hennill."

**InclusAbility – Enillwyr Grŵp Cymunedol/Elusen y Flwyddyn:**

"Roeddem yn falch iawn o gael ein henwebu ar gyfer y wobr, heb sôn am ei hennill! Roedd yn teimlo fel cyflawniad gwych i'n tîm, gan mai dim ond yn ddiweddar y gwnaethom sefydlu InclusAbility. Roedd yn hyfryd cael y gydnabyddiaeth am ein holl waith caled ac i ddathlu'r gwahaniaeth yr oeddem wedi'i wneud i'r gymuned leol."

GWOBRAU ARWYR TAWEL SIR PEN-Y-BONT AR OGWR







## Cymdeithion Cymunedol

Mae Cymdeithion Cymunedol yn wasanaeth cyfeillio a ddarperir gan wirfoddolwyr. Mae'r gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaeth cyfeillio i bobl hŷn, ac sydd yn aml yn gaeth i'r tŷ. Mae'r gwasanaeth yn helpu i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd ac yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol.

Dros y flwyddyn rhoddodd gwirfoddolwyr cyfeillio o leiaf 1,900 o oriau gwirfoddoli. Mae hyn wedi cefnogi unigolion i gael mynediad i grwpiau cymunedol, mynd i apwyntiadau ac mae'r gwasanaeth wedi helpu i wella hunanhyder a llesiant emosiynol, wedi arwain at ostyngiad mewn pryder cymdeithasol ac wedi helpu i gadw pobl yn ddiogel ac yn annibynnol gartref sy'n cael effaith gadarnhaol ar unigolion a'u teuluoedd yn aml hefyd.

### Beth wnaethom ni ei gyflawni?

- **35** o bobl wedi manteisio ar y gwasanaeth cyfeillio
- **£19,798** o werth cymdeithasol ychwanegol (oriau gwirfoddoli)
- Cafodd gwirfoddolwyr hyfforddiant mewn: ymwybyddiaeth o hunanladdiad, diogelu, cymorth cyntaf a sesiynau Deall Dementia
- Ennill ail-achrediad ar gyfer Gwobr Ansawdd Cyfeillio

Cymdeithion Cymunedol
Cynnig cyfeillgarwch a chymorth

"Rwy'n ddiolchgar iawn i fy ngwirfoddolwr. Mae hi'n edrych ymlaen at fy ngweld i ac rwy'n edrych ymlaen at ei gweld hi'n dod. Mae fy ngwirfoddolwr yn meddwl am bopeth, ac mae hi'n un mewn miliwn."

"Mae wedi bod yn bresenoldeb yr oeddwn ei angen. Mae fy ngwirfoddolwr wedi bod yn fendith."

"Roedd Cymdeithion Cymunedol yn anadl einioes a fyddai'n ffonio a gallwn innau rannu fy holl bryderon â nhw."

# Cyllid Cynaliadwy

Canlyniad

*Trydydd sector cynaliadwy*

## Beth wnaethon ni?

Helpodd BAVO grwpiau i sicrhau cyllid a chael gafael ar yr adnoddau oedd eu hangen arnynt i barhau i ddarparu gwasanaethau. Er ein bod ni i gyd yn wynebu'r her 'adfer ar ôl Covid' ac 'argyfwng costau byw'.

## Beth wnaethom ni ei gyflawni?

**155**
o sefydliadau wedi'u cefnogi drwy gyllid

**£287,618**
wedi'u sicrhau gyda chefnogaeth BAVO

**£202,535**
mewn grantiau a ddosbarthwyd gan BAVO

**255**
o ymholiadau cyllid wedi eu hateb drwy gefnogaeth un i un

## Pa wahaniaeth a wnaethpwyd?

"Hapus iawn gyda help BAVO!

Gyda'u cymorth nhw rydym wedi sicrhau ychydig o grantiau, diolch i'r cymorth a gawsom i lenwi ffurflenni a'r wybodaeth am yr hyn sydd ar gael.

Roedd y grant diweddaraf yn £10k gan Comic Relief i adeiladu lloches awyr agored fel y gall mwy o blant fwynhau'r awyr agored hyd yn oed mewn tywydd garw. Diolch yn fawr iawn i BAVO."

**Donna Jacka, Girlguiding, Porthcawl a Chanol Morgannwg**



"Fe wnaeth BAVO ein helpu ni ar hyd y ffordd, gan ddod â'n syniadau ni at ei gilydd a chwblhau'r cais. Roeddem yn teimlo mor gyffrous o gael y grant, rhoddodd hwb i'n grŵp mewn gwirionedd.

Ni fyddem wedi gallu gwneud hyn heb eich cefnogaeth chi!"

**Grŵp y Crefftwyr Hapus**



## Grŵp y Crefftwyr Hapus

Cafodd grŵp y Crefftwyr Hapus gymorth un i un ynghylch llywodraethu sefydliadol a sut i baratoi ceisiadau am gyllid da. Aethant ymlaen i sicrhau £4,980 o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer eu prosiect 'Cadw'n Glyd'. Roedd hyn yn eu galluogi i brynu edafedd ac offer hanfodol i wau a chrosio amrywiaeth o sgarffiau a mentyll clyd i'w cyfrannu er mwyn cadw pobl leol agored i niwed yn gynnes dros fisoedd oer y gaeaf.

## Corau er Daioni – Grant Ynysigrwydd Cymdeithasol

Llwyddodd Corau er Daioni i gefnogi 41 o unigolion gyda Grant Ynysigrwydd Cymdeithasol.

Mae'r côr yn cefnogi pobl i fyw bywydau mwy cysylltiedig a boddhaus yng nghalon eu cymuned. Roedd yr arian yn eu galluogi i ddarparu lle cynnes a chroesawgar ac annog mwy o bobl i ymuno.

Mae'r manteision yn mynd y tu hwnt i ganu, gyda'r grŵp yn dathlu penblwyddi yn rhannu cacennau a bisgedi cartref ac yn cefnogi ei gilydd pan fydd pethau'n anodd. Mae'r prosiect wedi creu cyfeillgarwch parhaol.

"Y Côr yw uchafbwynt fy wythnos, dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i'n ei wneud hebddo!"

## Grantiau Dan Arweiniad Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r cynllun grantiau bach hwn yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymuned ac yn ceisio annog mwy o wirfoddoli ymhlith pobl ifanc. Er mwyn i'r ceisiadau fod yn gymwys, mae angen i bobl ifanc gymryd rhan yn y gwaith o'u dylunio a'u darparu.

Mae'r panel cyllido wedi'i gefnogi a'i hwyluso gan BAVO a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'r aelodau i gyd yn bobl ifanc a nhw sy'n gwneud y penderfyniadau ariannu. Mae cymryd rhan yn y panel yn datblygu eu sgiliau mewn diwydrwydd dyladwy, cyllidebu, rheoli grantiau, asesu ceisiadau a gwneud penderfyniadau.

Gwnaeth y grantiau gyflawni'r canlynol:

- Ariannwyd **4** prosiect dan arweiniad ieuenctid
- Dosbarthwyd **£6,585** mewn cronfeydd
- Fe wnaethant alluogi **48** o bobl ifanc ychwanegol i wirfoddoli




"Y gwahaniaeth yn sgil fy ngwaith gwirfoddol yw bod fy iechyd meddwl wedi gwella ac mae wedi gwneud i mi fwynhau gwneud pethau yn fwy."

**Person ifanc, Gweinidogaethau Abercynffig**



## Pa wahaniaeth a wnaethpwyd?

"Mae gwirfoddoli wedi rhoi'r sgiliau a'r hyder i mi ymgeisio am swyddi a chael gwaith. Mae gwirfoddoli wedi gwneud i mi sylweddoli bod gweithio gyda'n gilydd yn bwysig."

Person ifanc, KPC Ieuenctid a Chymuned

"Roedd yn galluogi staff i feithrin a datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r bobl ifanc. Roedd hefyd yn galluogi KPC i roi gwobr i bobl ifanc am eu holl waith gwirfoddoli.

"Fe wnaeth y bobl ifanc fagu hyder ac ymweld â lle o'u dewis. Cyfleoedd na fyddent fel arfer yn eu cael. Mae rhai o'r bobl ifanc dan sylw wedi mynd ymlaen i gael gwaith."

**Staff KPC Ieuenctid a Chymuned**

# Ymgysylltu a Dylanwadu

Canlyniadau

*Trydydd Sector bywiog a dylanwadol*

*Sicrhau llais i ddinasyddion a chymunedau*

## Beth wnaethon ni?

Gwnaeth BAVO gydgysylltu, hwyluso a chynrychioli'r sector mewn ystod o rwydweithiau a fforymau gyda phwyslais ar iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Roedd cyrhaeddiad ein cyfranogiad yn cwmpasu iechyd meddwl, gofalwyr, digonolrwydd bwyd, ffoaduriaid, cyn-filwyr a rhagnodi gwyrdd i enwi dim ond ychydig.

Mae llais cymuned a defnyddwyr gwasanaethau yn rhan annatod o'n gwaith dylanwadu ac ymgysylltu. Trwy gysylltiad â grwpiau cymunedol a gwirfoddol, gwnaethom ymgysylltu â phobl gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a phobl â phrofiad bywyd.

Cyflawnodd y tîm y canlynol:

- Hyrwyddo persbectif y trydydd sector mewn partneriaethau strategol
- Hwyluso a chefnogi cyfleoedd rhwydweithio trwy amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau
- Cefnogi cyfleoedd i sefydliadau gydweithio
- Ymateb i fentrau cymunedol ac ehangu llais cymunedau

## Beth wnaethom ni ei gyflawni?

Presenoldeb BAVO mewn **95** o gyfarfodydd rhanddeiliaid a phartneriaeth

**434** o bobl yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau a fforymau

Cydgysylltu **15** o rwydweithiau a fforymau

## Sut wnaethom ni hyn?

- Gweithio gyda **Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW)** i gyflawni gwelliannau i wasanaethau a darparu adnoddau, gan gynnwys offer digidol, sy'n diwallu anghenion aelodau sy'n newid mewn argyfwng costau byw.
- Buom yn gweithio gyda **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf** ar y cynllun llesiant gan sicrhau bod y sector yn cael ei gynnwys wrth fapio, ymgynghori ac ymgysylltu. Dylanwadodd hyn ar flaenoriaethau'r BGC wrth iddo gychwyn ar ei daith i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol newydd – **www.bwrddgwasanaethaucyhoeddusctm.cymru**. Ceisiodd BAVO a chyd-gynghorau gwirfoddoli sirol sicrhau nad oedd symud tuag at bwyslais mwy rhanbarthol ar draul asedau cymunedol hyperleol a gwaith gwirfoddol.
- Fel aelodau o **Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPR) CTM** gwnaethom hyrwyddo cyd-gynhyrchu a hyrwyddo sawl digwyddiad 'Hacathon' - **ctmregionalpartnershipboard.co.uk/cy/events**. Mae hacathon yn ddigwyddiadau cyfranogol creadigol sy'n dod â defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau ynghyd. Fe wnaethom hefyd gynnal nifer o ddigwyddiadau, fforymau, gweithdai a thrafodaethau ar ystod o faterion gan ganolbwyntio ar faterion pobl hŷn, dementia, ieuenctid a gofalwyr di-dâl a mwy. Rhoir llais i ystod amrywiol o safbwyntiau sy'n bwysig ar gyfer llunio gwasanaethau iechyd.
- Gwnaethom hwyluso **Rhwydwaith Gofal Cymdeithasol a Llesiant Iechyd** lleol. Mae hwn yn dwyn ynghyd grwpiau gwirfoddol a chymunedol gyda rhanddeiliaid sy'n canolbwyntio ar iechyd fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol. Mae'r rhwydwaith yn ystyried penderfynyddion ehangach iechyd ac mae'n cadw llygad ar flaenoriaethau sydd i ddod.

Caiff aelodau eu hysbysu ynghylch cynllunio iechyd cyhoeddus tymhorol ac yn cael negeseuon. Er enghraifft, nododd y rhaglenni imiwneiddio ffliw a Covid fod mwy o bobl wedi dod i'r clinigau.

> "Hwylusodd BAVO drafodaeth gyda'r Rhwydwaith, a oedd yn ffordd wych o gwrdd â sefydliadau'r sector gwirfoddol a chyhoeddus lleol yn yr ardal a'r cyffiniau i glywed eu barn yn uniongyrchol ar iechyd a llesiant ac ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg."

> “Mae Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael cefnogaeth ardderchog gan BAVO. Rydym yn gweld bod mynychu’r Rhwydwaith Gofalwyr a’r Rhwydwaith Ymddiriedolwyr a hwylusir gan BAVO yn ddefnyddiol.”
>
> **Helen, Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr – Yn mynychu’r Rhwydwaith Gofalwyr a’r Rhwydwaith Ymddiriedolwyr**

> “Mae’r cyfarfodydd rhwydwaith wedi bod yn ddefnyddiol iawn i gynorthwyo gweithio mewn partneriaeth, gosod safonau a nodi cyfleoedd.”
>
> **Alison, Baobab Bach Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) – Yn mynychu’r Rhwydwaith Bwyd a’r Rhwydwaith Gwyrdd**

- Fe wnaethom gysylltu **clystyrau meddygon teulu a meddygfeydd** â grwpiau cymorth yn y gymuned. O ganlyniad, roedd meddygon teulu yn ymwybodol o gwmpas a natur gaffaeladwy gwasanaethau’r trydydd sector a gallent gyfeirio at ddarpariaeth gymunedol. Mae hyn yn rhoi cymorth mwy uniongyrchol ac weithiau mwy priodol i bobl. Roedd hefyd yn lleihau rhestrau aros meddygon teulu.
- Fel partner yn natblygiad **Ysbyty Maesteg**, cysylltodd BAVO grwpiau lleol â’r rhaglen waith o ailfodelu’r gwasanaethau ar y safle. Hefyd, rhannodd gofalwyr di-dâl a phobl sy’n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl brofiadau bywyd a helpodd i lunio’r cynigion newydd er mwyn ceisio sicrhau opsiynau cymorth mwy priodol. Fe wnaethom ni greu amodau ar gyfer cydweithio gyda darparwyr gwasanaethau yn canolbwyntio ar helpu gofalwyr.
- Fe wnaethom gysylltu â **CBSP a Cwmpas ar eu prosiect ‘Cysylltu Gofalwyr’**. Gwahoddwyd sefydliadau lleol a phobl sy’n gofalu am deulu neu ffrindiau, i ddod at ei gilydd i feddwl am eu hanghenion llesiant eu hunain. Yn sgil hyn roeddent yn gallu ymuno mewn grwpiau cefnogol i’r naill ochr a’r llall a oedd yn lleihau ynysigrwydd a phryder.
- Parhaodd y **Rhwydwaith Gofalwyr** i rannu arfer da. Nod y rhwydwaith yw cael mynediad teg at wasanaethau i ofalwyr ar draws y rhanbarth a darpariaeth sy’n cydnabod ac yn gwerthfawrogi arbenigedd darparwyr trydydd sector. Rhennir gwybodaeth ac rydym yn gweithio i helpu i dyfu ystod amrywiol o wasanaethau sy’n ategu ei gilydd yn hytrach nag yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.
- Fe wnaethom gyd-gynna **Fforwm Iechyd Meddwl Rhanbarthol Trydydd Sector cyntaf CTM**. Ystyriodd y gweithdy diben a gwerthoedd, protocolau ar gyfer cael gafael ar gyllid, aelodaeth, cynrychiolaeth a chyfathrebu. Mae’r system a’r strwythurau wedi arwain at lefelau ymgysylltu mwy cyson.
- Mae’r **Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Meddwl Alcohol Cyffuriau (DAMHSN)** yn creu sianel gyfathrebu rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol, gyda llais defnyddwyr gwasanaethau yn rhan o wead y trafodaethau. Mae’r rhwydwaith hwn yn galluogi rhannu gwybodaeth hanfodol am gynllun gwasanaeth a chyfleoedd ariannu. Mae’r rhwydwaith wedi elwa ar hyfforddiant gan gynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru, Cyfeillion Dementia ac Ara (Asiantaeth Adferiad Caethiwed).
- Mae’r **Rhwydwaith Defnyddwyr Gwasanaethau**, grŵp profiad bywyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn cwrdd bob mis. Roedd y sesiynau yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, cyfnewid gwybodaeth a chyfleoedd ymgysylltu. Mae’r swyddogaeth allweddol hon yn agor y ffordd i’r cymorth cywir gael ei ddylunio a’i ddarparu yn y ffordd iawn ac yn y mannau cywir.
- Rydym yn arwain fframwaith **‘Gwobrwyo a Chydnabod’**, gan gydweithio â Bwrdd Iechyd CTM a CGSau ym Merthyr a RhCT. Mae’r darn hwn o waith yn mynd i’r afael â sut i wobrwyo a chydnabod unigolion sydd â phrofiad bywyd o iechyd meddwl gwael am yr ymrwymiad a’r ymgysylltiad y maent yn ei ddarparu o ran amser. Gall hyn gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau strategol fel cynrychiolaeth a chyd-gynhyrchu, cyd-ddylunio, ac weithiau, hyd yn oed cyd-ddarparu atebion a gwasanaethau.
- Fe wnaethom gefnogi gwaith **Rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr**, a gynhaliwyd gan Plantlife Cymru. Roedd y rhwydwaith yn cysylltu grwpiau, cymunedau a phrosiectau lleol sy’n darparu gweithgaredd ar thema ‘Llesiant a natur’. Rhoddodd y gwaith gynnig llesiant amlweddog i bobl, er enghraifft gwirfoddoli amgylcheddol neu ddefnyddio mannau gwyrdd ar gyfer ymarfer corff a llesiant personol. Cafodd ein tîm Llywio gefnogaeth gyda rhagnodi gwyrdd.
- **Mae’r Rhwydwaith Diogeledd Bwyd**, a ddatblygwyd i ddechrau yn ystod Covid, yn parhau â’r gwaith o ganlyniad i bwysau costau byw. Roedd y rhwydwaith yn cysylltu banciau bwyd, pantrïau cymunedol, Big Bocs Bwyd, ceginau cymunedol a chanolfannau/caffis clyd gyda’i gilydd i wneud gwell defnydd o adnoddau ac i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ar gyfer y rhai mewn tlodi. Roedd yn sicrhau bod adnoddau a chapasiti mor ddiogel â phosibl. Parhaodd BAVO i weithredu fel dosbarthwr talebau bwyd ar gyfer y banciau bwyd.
- Parhaodd y rhwydwaith **‘Croeso Pen-y-bont’**, a sefydlwyd i ddechrau mewn ymateb i’r sefyllfa yn Wcráin, gyda’r gwaith o ddod â phartneriaid aml-asiantaeth ynghyd i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae’r gefnogaeth yn cynnwys rhoddion o gynhyrchion ymolchi, dillad a theganau, cymorth gyda magu hyder, creu CV a chwilio am waith, gwersi Saesneg a cheisiadau fisa i enwi dim ond ychydig. Mae hyn wedi helpu integreiddio a chreu cymunedau amrywiol a chydlynol.

# Cyfeirio Cymunedol

**Canlyniad**

*Cefnogi pobl i aros yn gysylltiedig ac yn annibynnol*

## Rhagnodi Cymdeithasol

Bellach mae gan BAVO dîm o 8 Cyfeirwr Cymunedol (gan gynnwys staff rhan-amser). Roeddent yn darparu gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol ar draws Bwrdeistref Sirol gyfan.

Cyflawnodd y gwasanaeth y canlynol:

- Helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth
- Galluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau a chymorth yn y gymuned
- Gwella llesiant drwy leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd
- Lleihau'r galw ar wasanaeth statudol gan ysgafnhau'r pwysau ar feddygon teulu, adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill
- Helpu grwpiau cymunedol trwy eu cysylltu â gwasanaethau eraill ar gyfer cymorth llywodraethiant, cyllid a gwirfoddolwyr.

Mae'r Cyfeirwyr yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi llesiant pobl. Maen nhw'n cymryd amser i sgwrsio a gwrando i ganfod 'beth sy'n bwysig' i bobl. Derbyniodd y tîm hyfforddiant 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' (GBCG) er mwyn iddynt allu rhannu gwybodaeth iechyd a llesiant cyson a chryno a chefnogi pobl i ddeall yr ystod o ffactorau sy'n effeithio ar sut maen nhw'n teimlo a'u helpu i 'gymryd rheolaeth' dros gadw'n iach.

Mae yna lawer o resymau dros yr atgyfeiriadau. Mae'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau yn ymwneud â phobl hŷn. Mae'r atgyfeiriadau a dderbynnir yn amrywiol. Unigolion ag ystod eang o broblemau, rhwystrau ac anghenion cymorth cymhleth yn aml. Mae Cyfeirwyr yn parhau i fod yn ymatebol, yn addasadwy ac yn sensitif i faterion fel diwylliant, crefydd ac anghenion cyfathrebu.

Enghreifftiau o gefnogaeth a ddarparwyd:

- Menyw draws wedi ei chefnog i lywio drwy'r system iechyd drwy ddiagnosis canser
- Cynorthwywyd menyw ifanc â nam ar ei golwg a oedd ag anableddau dysgu i ddefnyddio taliadau uniongyrchol a chael mynediad at gludiant, gwirfoddoli a gweithgaredd cymunedol
- Cafodd ceisiwr lloches, heb fawr o Saesneg, ac a oedd wedi colli ei Drwydded Breswylio Biometrig gymorth i'w alluogi i gael y budd-daliadau yr oedd ganddo hawl iddynt a chymorth i ddefnyddio llinell gymorth amlieithog

Buom yn gweithio i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned yn cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt. Mae unigolion sy'n cael cefnogaeth gan y Cyfeirwyr o'r farn bod y gwasanaeth yn 'anadl einioes'. Roedd pobl yn adrodd bod cael mynediad rheolaidd at Cyfeirwr sy'n deall, yn hytrach na chael eu hanfon o bared i bost yn bwysig.

Roedd y gwasanaeth yn wasanaeth ataliol ategol sylweddol i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol gan ei fod yn aml yn lleihau cynnydd mewn angen a allai gael goblygiadau o ran adnoddau ar iechyd a gwasanaethau statudol.

Roedd ein gwaith cyfeirio a'n gwybodaeth yn cynnig cyfleoedd i unigolion gael mynediad at wasanaethau lleol. Gall cael mynediad at un neu ddau o weithgareddau yr wythnos newid bywydau pobl. Mae gwneud newidiadau bach yn eu galluogi i gael gwell perthnasoedd, adeiladu grwpiau cyfeillgarwch, cysylltu â'u cymuned a magu hyder. Mae'n aml yn arwain pobl i gymryd mwy o reolaeth dros eu llesiant ac yn eu helpu i aros yn annibynnol.


O'r **5,579** o atgyfeiriadau a wnaethom ni, roedd **89%** (4,965) i sefydliadau'r trydydd sector. Gyda'r **11%** a oedd yn weddill (614) i wasanaethau iechyd statudol neu breifat.

Mae hyn yn dangos yn glir ehangder y ddarpariaeth gymunedol a gynigir sy'n helpu pobl yn uniongyrchol drwy ystod amrywiol o anghenion iechyd a llesiant.

### Roedd y tri phrif fater a amlygwyd yn gysylltiedig â:


1. **Costau byw**
2. **Unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol**
3. **Iechyd meddwl**

### 677 o Atgyfeiriadau




*Yn cynnwys achosion brys, meddygon teulu a phreifat

### I ble wnaethom atgyfeirio a chyfeirio



## Beth wnaethom ni ei gyflawni?

**5,579**
o achosion o atgyfeirio a chyfeirio at ddarpariaeth trydydd sector (efallai bod unigolion wedi cael eu cyfeirio at sawl gwasanaeth)

**600**
o bobl yn gallu cael gafael ar gymorth yn y gymuned a oedd yn newydd iddyn nhw

**482**
o gleientiaid newydd

**677**
o atgyfeiriadau newydd

Dywedodd
**85**
o bobl eu bod wedi profi mwy o gysylltiadau cymdeithasol

✓
Dywedodd
**106**
o bobl eu bod yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau a fyddai'n effeithio arnynt

## Pa wahaniaeth a wnaethpwyd?

"Rwy'n teimlo'n fwy optimistaidd. Rwy'n gallu mynd allan ar mhen fy hun, rwy'n llai nerfus os ydw i'n gwybod ble rydw i'n mynd ac yn fwy parod i roi cynnig ar bethau. Rwy'n teimlo'n fwy heini ac wedi cyflwyno gweithgareddau i fy wythnos ac rwy'n teimlo fy mod yn cael budd yn sgil hyn. Mae'n gwneud i mi deimlo fy mod i wedi gwneud rhywbeth drosof fy hun.

Er bod ffordd bell i fynd o hyd, rwy'n teimlo'n fwy cadarnhaol y byddaf yn gallu cyrraedd yno. Rwy'n credu ynof fi fy hun erbyn hyn achos mae'n rhoi gobaith i mi ar gyfer y dyfodol, rwy'n gallu blaenoriaethu a gweithio tuag at nodau - rwy'n gwybod nawr fy mod i'n gallu llwyddo."

**Defnyddiwr cadair olwyn drydan a oedd wedi colli hyder yn ystod y pandemig**




"Cysylltais â Cyfeirwyr Cymunedol er mwyn cael taleb banc bwyd ar gyfer menyw ifanc sy'n byw yn ein llety. Dywedodd y Cyfeirwr wrthyf nad oedd banc bwyd lleol ar agor tan ar ôl y penwythnos ac awgrymodd ymweld â phantri lleol oedd ar agor. Roedd y pantri yn gallu darparu bwyd i'm cleient dros y penwythnos. Mae defnyddio'r pantri yn wythnosol yn helpu'r cleient i reoli ei harian."

**Gweithiwr cymorth, ar gyfer cleientiaid mewn tai â chymorth**

## Canolfannau Clyd y Grid Cenedlaethol

Trwy grant Canolfannau Clyd y Grid Cenedlaethol llwyddodd BAVO i gyd-gynnal 4 caffi clyd ar draws y sir yn y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr, Abercynffig a Maesteg. Roeddem hefyd yn gallu dosbarthu dillad cynnes a phecynnau ategolion, blancedi a hwdis i unigolion a theuluoedd a oedd yn ei chael hi'n anodd cadw'n gynnes a rheoli eu biliau tanwydd.

Drwy'r grant rydym wedi helpu:

- **72** Oedolyn
- **10** 10 Plentyn (8 teulu)
- **20** o bobl hŷn (60+)
- Dros **350** o bobl drwy fynychu **4** canolfan glyd

Roedd Cyfeirwyr yn gallu dosbarthu pecynnau cynnes yn uniongyrchol i bobl a oedd yn dod i mewn i'n gwasanaeth ond roedd BAVO hefyd yn derbyn atgyfeiriadau gan bartneriaid fel Cymru Gynnes, Cyngor ar Bopeth, banciau bwyd a phantrïau bwyd.

# 25 Mlynedd

## 1997



- Sefydlwyd BAVO gyda thîm o 3 o bobl. Peter Wakefield yw ein cadeirydd.

Parth Google.com yn cael ei gofrestru ar 15 Medi 1997

## 1999



- Penodwyd Tejay De Kretser yn Gyfarwyddwr. Mae gan BAVO dîm o 6 aelod o staff rhan-amser a 3 llawn-amser.

Cyfarfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf ar 12 Mai 1999

## 2004

- BAVO yn ymuno ag ystod o bartneriaethau gan gynnwys Diogelwch Cymunedol, Bwrdd Iechyd Bro Morgannwg a'r Bartneriaeth Strategol Leol.
- Rydym yn darparu gwasanaethau allgymorth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Caerau, Porthcawl, Corneli a Phontycymer.

4 Chwefror 2004 Lansiwyd Facebook

## 2005



- Cynllun Gofodol Cymru yn cael ei gyhoeddi. Mae'r Trydydd Sector wedi'i gynnwys wrth wneud penderfyniadau strategol. Cronfeydd strwythurol yr UE yn helpu i fynd i'r afael â heriau economi Cymru.

7/7 Ymosodiad terfysgol yn Llundain

## 2006



- Llwyddodd BAVO i sicrhau cyllid ar gyfer ein hadeiladau ein hunain ym Maesteg.

21 Mawrth 2006 Lansio Twitter

## 2011

- Swyddog Cymunedau Mentrus wedi'i benodi i ddarparu cymorth menter gymdeithasol wedi'i deilwra.
- Sefydlwyd Uned 3 y Cyfryngau ym Maesteg i gefnogi cynhwysiant digidol a darparu mynediad at TG i grwpiau cymunedol.
- Creu cyfrif Facebook BAVO @ BAVOhub

Cyfraddau llog y DU Banc Lloegr yn 0.5%

## 2012



- BAVO wedi'i gofrestru fel elusen. Mark Davies yw ein Cadeirydd ni.
- 493 o aelodau.
- Rydym yn dechrau defnyddio Twitter.
- Llwyddiant gyda grant gan y Loteri Fawr yn sicrhau £800k ar gyfer cynllun cyfeillio newydd.

Gemau Olympaidd Llundain yn agor 27 Gorffennaf 2012

## 2013

- £1m o gyllid ar gyfer prosiect Llais Cymunedol y Loteri Fawr a oedd yn cynnwys 8 partner gwirfoddol a sefydlu prosiect LHDTC+, cefnogi'r Gynghrair Anabledd a grŵp hunangymorth hunan-niweidio ymhlith eraill.

Tywysog George yn cael ei eni 22 Gorffennaf 2013

## 2018

Blwyddyn Dathlu'r 21ain

- Ein pen-blwydd yn un ar hugain!
- Cawsom 5,119 o ymholiadau
- Darparwyd cymorth AD i gleientiaid Busnes Cymdeithasol Cymru (Cwmpas).
- Sefydlwyd gwasanaeth camddefnyddio sylweddau rhwydwaith 'Ymgysylltu i Rymuso' Bae'r Gorllewin

25 Mai 2018 daeth rheoliadau GDPR i rym

## 2019




- Lansiwyd ein prosiect 'Link Up' y Loteri Fawr ar gyfer Ymddiriedolwyr mewn cydweithrediad â Chynghorau Gwirfoddol Sirol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
- Sefydlwyd tîm Llywio Cymunedol i ddarparu rhagnodi cymdeithasol.
- Sefydlu Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Mae BAVO yn aelodau ynghyd â Chynghorau Gwirfoddol Sirol ym Merthyr a RhCT.

12 Rhagfyr 2019 Y Blaid Geidwadol yn ennill Etholiad Cyffredinol y DU

## 2000



- Agorwyd Biwro Gwirfoddoli Pen-y-bont ar Ogwr yn Stryd y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Dosbarthwyd grantiau cyntaf BAVO gyda phot o £65k.

Mileniwm newydd

## 2001

- Mal Reeves yw Cadeirydd BAVO.
- Yn sgil cyllid yr UE mae'r tîm staff yn cynyddu i dros 20.

7 Mehefin 2001 Etholiad Cyffredinol y DU – Llafur yn ennill ail dymor

## 2002

- BAVO yn lansio ei wefan gyntaf.
- Mae gennym 256 o sefydliadau sy'n aelodau.
- £227k mewn grantiau wedi'u dosbarthu.

Blwyddyn Jiwbilî Aur y Frenhines Elisabeth II

## 2007



- Heidi Bennett yn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr.
- Symudodd BAVO allan o Stryd y Parc ac i mewn i'n swyddfa bresennol ar Stryd Masnach Maesteg.

Cododd Banc Lloegr gyfraddau llog y DU i 5.25%

## 2009

- Cais llwyddiannus gydag ABMU (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe erbyn hyn) am £1m i gefnogi'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau atal hunanladdiad.
- Penodi Cynghorydd Gwirfoddoli Ieuenctid Comisiwn Russell i'r tîm.

Barack Obama yn dod yn 44ain Arlywydd yr Unol Daleithiau

## 2010

- Cyd-arwain ar ddatblygu Strategaeth Gofalwyr.
- Cychwynnwyd tîm Gweithredu Byth yn Rhy Hen gyda CBSP
- Ymunodd ein prentisiaid 'Swyddi'r dyfodol' â ni (ac aros am 10 mlynedd!) a phenodwyd Swyddog Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol i'r tîm

6 Hydref 2010 Instagram yn cael ei lansio

## 2014

- Ail-lansiwyd digwyddiad Gwobrau Cyflawniad Gwirfoddolwyr.
- Rhaglen atal hunanladdiad yn dod i ben. Cyrhaeddodd y gwaith 4,408 o bobl.

Y fideo "Gangnam Style" ar YouTube oedd y cyntaf i ddenu 2 biliwn o wylwyr

## 2015

- Cynllun Olwynion i'r Gwaith wedi'i ariannu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gynnig benthyciadau mopeds i bobl ifanc sydd angen cerbydau i fynd i'r gwaith.

7 Mai 2015 Etholiad Cyffredinol y DU - Y Blaid Geidwadol yn ennill gyda mwyafrif o 10 sedd

## 2017

- Canolfan Wirfoddoli Newydd yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr yn agor a BAVO yn cyflawni safon Ansawdd PQASSO.
- Fe wnaethom ni sefydlu Parc Maesteg fel rhan o brosiect iechyd 20 Cwm Llynfi

14 Mehefin 2017 Tân Tŵr Grenfell

## 2020



- Fe wnaethom reoli mewnlifiad o gannoedd o wirfoddolwyr yn cynnig gwasanaethau siopa, gyrru, cyfeillio a chasglu presgripsiynau ledled y sir.
- Steve Curry yw Cadeirydd BAVO.

Pandemig Covid yn taro - 23 Mawrth 2020 y cyfnod cyfyngiadau symud cyntaf

## 2021

- Mae ein prosiect Super-Agers yn newid i gynigion digidol oherwydd y cyfyngiadau symud.
- Fe wnaethom gefnogi ein cymunedau amrywiol lleol gyda negeseuon a gwybodaeth iechyd trwy secondiad gweithiwr Allgymorth BME o'r Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid.

4 Ionawr 2021 Brechlyn Covid cyntaf wedi'i roi yn y DU

## 2022 - 2023

- Blwyddyn Pen-blwydd BAVO yn 25 oed
- Llawer i'w ddathlu ac rydym yn parhau i weithio'n galed i gefnogi'r trydydd sector ar draws Sir Pen-y-bont ar Ogwr.
- Rydym yn falch o dderbyn Gwobr Arian Cymhwysedd Diwylliannol.

Rwsia yn ymosod ar Wcráin ar 24 Chwefror 2022

# Cyllid

## Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)

## Mantolen – Ar 31 Mawrth 2023

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 2023 Cyfanswm y Cronfeydd £ | 2022 Cyfanswm y Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | **178,818** | **-** | **178,818** | **187.874** |
| | | | | |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Dyledwyr | 76,469 | | 76,469 | 140,904 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 1,823,326 | 579,713 | 2,403,039 | 2,361,282 |
| | **1,899,795** | **579,713** | **2,479,508** | **2,502,186** |
| | | | | |
| **CREDYDWYR** | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (111,708) | - | (111,708) | (281,242) |
| | | | | |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | **1,788,087** | **579,713** | **2,367,800** | **2,220,944** |
| | | | | |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | **1,966,905** | **579,713** | **2,546,618** | **2,408,818** |
| | | | | |
| **ASEDAU NET** | **1,966,905** | **579,713** | **2,546,618** | **2,408,818** |
| | | | | |
| **CRONFEYDD** | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | 1,966,905 | 1,813,196 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | | 579,713 | 595,622 |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | **2,546,618** | **2,408,818** |

## Datganiad yr archwilwyr annibynnol i Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol cryno Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

### Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol ag argymhellion y SORP elusennau.

Ein cyfrifoldeb ni yw rhoi gwybod i chi beth yw ein barn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno gyda'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

### Sail y farn

Roedd ein harchwiliad yn cynnwys cytuno ar y balansau a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol cryno i'r datganiadau ariannol blynyddol llawn. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn yr elusen yn disgrifio sail ein barn ar y datganiadau ariannol hynny ac ar adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

### Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)

# Datganiad o weithgareddau ariannol – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 2023 Cyfanswm y Cronfeydd £ | 2022 Cyfanswm y Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|
| **INCWM A CHRONFEYDD GWADDOL O** | | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | 15 | 500 | 515 | 170 |
| Weithgareddau masnachu eraill | 23,675 | - | 23,675 | 21,901 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 12,777 | - | 12,777 | 671 |
| Gweithgareddau elusennol | 313,486 | 725,894 | 1,039,380 | 1,316.299 |
| **Cyfanswm** | **349,953** | **726,394** | **1,076,347** | **1,339,041** |
| | | | | |
| **GWARIANT AR** | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 196,395 | 742,394 | 938,547 | 1,139,307 |
| **Cyfanswm** | **153,558** | **(15,758)** | **137,800** | **1,139,307** |
| | | | | |
| **INCWM NET** | **153,558** | **(15,758)** | **137,800** | **199,734** |
| | | | | |
| **Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd** | 151 | (151) | - | - |
| | | | | |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | **153,709** | **(15,909)** | **137,800** | **199,734** |
| | | | | |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen** | **1,813,196** | **595,622** | **2,408,818** | **2,209,084** |
| **CYFANSWM YR CRONFEYDD A DDAETH YMLAEN** | **1,966,905** | **579,713** | **2,546,618** | **2,408,818** |

## Barn

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**Bevan & Buckland**
Llawr Gwaelod, Tŷ Aberteifi
Llys y Castell, Parc Menter Abertawe
Abertawe, SA7 9LA

## Datganiad gan yr Ymddiriedolwyr

Nid yw'r datganiadau ariannol cryno hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn gyfrifon statudol llawn y gymdeithas, ond maen nhw'n cynnwys crynodeb o wybodaeth a dynnwyd o'r cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â'r datganiad o weithgareddau ariannol [DOWA] a'r fantolen.

Mae'n bosibl na fydd y datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i ganiatâu dealltwriaeth lawn o faterion ariannol yr elusen. I gael rhagor o wybodaeth, dylid ymgynghori â'r datganiadau ariannol llawn ac adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr; gellir cael copïau o'r rhain ar gais i BAVO.

Rhaid i'r datganiadau ariannol llawn fod yn destun archwiliad allanol gan archwilydd annibynnol a rhaid derbyn adroddiad diamod.

Cymeradwywyd yr adroddiad llawn a'r datganiadau ariannol gan yr Ymddiriedolwyr ar 19 Gorffennaf 2023 ac maen nhw wedi cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ac i Gofrestrydd y Cwmnïau.

## Y Tîm Presennol

| | |
|---|---|
| **Heidi Bennett** | Prif Swyddog Gweithredol |
| **Kay Baker** | Rheolwr Partneriaethau a Gweithrediadau |
| **Caroline Wellings** | Swyddog Cyllid |
| **Alison Mawby** | Arweinydd y Tîm Datblygu |
| **Angela Davies** | Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| **Claire Emanuel** | Swyddog Datblygu a Grantiau |
| **Rhodri Powell** | Swyddog Rhwydweithiau'r Trydydd Sector |
| **Jackie Prosser** | Swyddog Creu Rhwydweithiau Cymunedol |
| **Laura Dadic** | Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl |
| **Lucy Williams** | Swyddog Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl |
| **Catherine Thomas** | Swyddog Partneriaethau Iechyd |
| **Alex Bowen** | Swyddog Rhwydwaith Gwyrdd |
| **Sharon Headon** | Swyddog Gwirfoddoli |
| **Abi Jenkins** | Swyddog Cymdeithion Cymunedol |
| **Ian Davy** | Cymorth Data a Pherfformiad |
| **Lorraine Surringer** | Gweithiwr Cyfeillion Dementia (ar secondiad o Gymdeithas Alzheimer's) |
| **Mark Fitzgerald** | Swyddog Datblygu (tan 2023) |
| **Cian Griffiths** | Swyddog Marchnata (tan 2022) |

**BAVO**

Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

25 Mlynedd

## Llyw-wyr Cymunedol

| | |
|---|---|
| **Gail Devine** | Arweinydd Tîm Cyfeirio Cymunedol |
| **Julia Andrews** | Cyfeirwr Cymunedol a Chymorth Busnes |
| **Rob Wood** | Cyfeirwr Cymunedol |
| **Georgina Powell** | Cyfeirwr Cymunedol |
| **Fiona Burlingham** | Cyfeirwr Cymunedol |
| **Russ Creemer** | Cyfeirwr Cymunedol |
| **Tom McGeoch** | Pwynt Mynediad Cyffredin |
| **Paul Evans** | Cyfeirwr Cymunedol (tan 2023) |


## Ymddiriedolwyr BAVO

| | |
|---|---|
| **Stephen Curry** | Cadeirydd |
| **Marged Griffiths** | Is-gadeirydd |
| **Phillip John** | |
| **Amanda Edwards** | |
| **Phil Fiander OBE** | |
| **Richard Young** | |
| **Mari Major MBE** | |



**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont**

112/113, Heol y Fasnach, Maesteg, CF34 9DL

01656 810400

bavo@bavo.org.uk

@BAVOhub

www.bavo.org.uk



Rhif cofrestru'r elusen: 1146543 • Rhif cwmni: 07691764



**Diolch i'n gyllidwyr**